

DAL Y GWYNT...

a saethu'r lleuad

DRAFFT 5

Mehefin 2025

Cyfieithiad Cymraeg o Eye of the Storm

gan Geinor Styles ac Amy Wadge

Cyfieithiad gan Gwawr Loader

Gyda diolch i:

Aled a Mair, Gruff, y Siliblings a'r Clwb Darllen

GOLYGFA 1

A huge cyclorama is lit with the sun setting over a wide expanse of land. In the foreground is the silhouette of a small mobile home.

Penywaun. South Wales Valleys. A residential mobile-home park - MONTANA HEIGHTS.

Late at night. There is a Country band on stage.

Lights pick up the band as they begin to play what is in essence the ***Overture, of the motif for weather/storm.***

On the cyc the sky starts to darken, and a tornado grows in the distance and travels towards us during the overture.

As it gets closer and closer it vanishes just as... A laptop light comes on and we see Emmie Music segue into **ALIVE (Intro plays)**

...Swinging on her crappy little office chair, eating a huge bag of basic value doritos, and drinking out of a cup with a straw, in front of her are two basic LCD monitors one repeatedly showing weather systems travelling across the Pacific, and one across the Atlantic.

She is engrossed in a news report coming in from America which plays on her laptop. She writes the data into a programme.

All images are projected on to the cyc for the audience.

BUD

And a K259 News alert to begin happening now on Hurricane Theresa. That storm already slamming into Cuba. Now, we have brand new tracking which shows where this massive system may be heading next, and it is not good news for those living in the North east of the United States of America...

EMMIE

*Corwynt creulon ddaeth i'm llethu i
'Nhroi i ben i waered, tu fewn mas 'da'i hyrddiau cryf
Ac, o, mae'r gwynt 'di newid siâp fy myd.*

BUD

...And if we just look at this weather system coming right on its rear end it is going to create all types of destruction. Lets go over to Ched, who's our very own stormchaser, who's on the tip of the eastern seaboard. How goes it Ched?

CHED

(struggling to talk over the huge gusts of wind)
It's getting windy out here on the boardwalk, Bud, I wish I'd kept up with my life insurance payments...

BUD

And if you need life insurance call State Farm, sponsors of K259...

EMMIE

*Cael fy llyncu gan don llanw mawr
Cael fy llusgo 'dano, 'nhroi a throi, fy nrysu nawr
Ac o, mae'r lli 'di newid siâp fy myd.*

CAST

*Ti methu ffeindio ateb
Os yw'r cwestiwn heb ei ofyn
Os ti'n chwilio am ddoethineb
Paid cyffroi, dwi'n ferch gyffredin
Pan fydd cwmwl fyny fry'*

Glaw yn llifo drosot ti a fi

Pan fydd storm yn bygwth trasiedi

Creda fi

Dwi'n 'nabod siâp fy myd.

The electricity cuts out and everything powers down.

Silence. Then suddenly we here weeping, that sounds like a child.

ANGELA

Emmie? Emmie?

It's her mother, Angela.

EMMIE

Power cut eto.

ANGELA

Ma'n rhy dywyll. Fi ofon... lfe storm yw e?

EMMIE

Na Mam, mae'n OK Mam... 'Na i sorto fe...

ANGELA

Be' 'sen i'n 'neud hebddot ti?

EMMIE

Nos da Mam...

During the verses Emmie reaches for her phone to light her way to a huge Tupperware box that is full of medication. She examines two of the bottles, and opens one and hands her mother, two sleeping pills.

EMMIE (CONT'D)

O dwi'n gweld y gwynt, dwi'n gweld y tir

S'o ni'n dysgu dim o'r difrod mawr, na'n gweld bydd gwawr

Ac fe wn i bod angen newid nawr.

As her mother goes back to bed Emmie steps outside her home, and as the song continues, Emmie “conjures up” a huge weather system, which starts up projected on the cyc and travels across the backdrop and across the stage as if engulfing her and home.

The storm slowly dissipates, leaving her all on her own.

Blackout.

GOLYGFA 2

The next morning. Beautiful Sky.

Lights up on the mobile home. Putting on her school tie over her head. She picks up her school jumper, smells it. It's fine. Puts it on. She gets a slice of bread and goes to the toaster, she then remembers that they have no electricity.

EMMIE

Oh God!

She grabs the bag of doritos, peers in not many left, so she lifts the bag to her mouth and pours the bits in. Crumples up the bag. She gets the straw from the cup and starts blowing the crisp bag around the table. She tries to keep it in the air. It fails.

Emmie opens a cupboard and gets a box of cereal out she lifts out a tin. Opens it and empties the contents - a fiver and a couple of coins.

She puts the tin down.

EMMIE

(CONT'D)

Mam, ti 'di mynd â'r arian o'r tun?

Suddenly her mother appears. - Angela - beautiful woman, early 40's. She has a childlike quality to her.

ANGELA

'Na i roi e nôl.

Emmie aware that that's not going to happen.

EMMIE

Ni ffili gwario'r emergency cash drwy'r amser Mam...

Angela goes over to the barometer that hangs on the wall and taps it

Emmie finds her phone and starts to text.

EMMIE (CONT'D)

Rainy day, cofio?

ANGELA

Every cloud bach...

Emmie is exasperated.

ANGELA (CONT'D)

Ti 'di ca'l brecwast?

EMMIE

Na, Mam, 'sdim trydan 'da ni, cofio?

Fi'n texto Mr Church i sorto fe mas nawr...

ANGELA

Och fe! Diawl dan dîn!

EMMIE

Mam!

ANGELA

'Na beth yw e.

(glances at the clock)

God, 'shgw! faint o'r gloch yw hi. Fi angen paratoi.

She cwtshes Emmie.

EMMIE

'Le ti'n mynd?

ANGELA

Fi'n meddwl trio am y jobyn 'na?

EMMIE

Job?

ANGELA

Ti'n cofio, yr un wedes i wrthot ti ambiti fe.

Emmie looks blank at her

ANGELA (CONT'D)

Yr un yng Nghaerdydd, office manager, yn y lle inshiwrans.

EMMIE

Sai'n cofio Mam, sori...

Angela agitated

ANGELA

O, pam do's neb yn gwrando arna' i'n ddiweddar?

EMMIE

Mae'n rhaid bo' fi 'di anghofio.

Gwêd wrtha' i amdano fe ar ôl ysgol.

ANGELA

Shwd allet ti anghofio? Mae e'n gyfle grêt i fi –

dechre newydd, newid popeth...

Emmie is aware of her mother becoming a little agitated

EMMIE

Paid anghofio bod apwyntiad gyda ni i weld Dr Thomas 'fory.

ANGELA

I be'?

EMMIE

Checo meds ti.

MR CHURCH

Emma?

ANGELA

Pwy sy' 'na nawr? Mor gynnar yn y bore?

EMMIE

Mr Church siwr o fod.

ANGELA

Wel sa'i mo'yn iddo fe weld fi. 'Neith e jesd riporto fi, snichyn diawl!

EMMIE

Mam 'sneb yn mynd i riporto ti, plŷs...

MR CHURCH

Emma!

ANGELA

Gwêd wrtho fe i fynd o 'ma.

EMMIE

Mae e'n helpu ni mas o dwll... 'Sdim 'letric 'da ni.

ANGELA

A pam 'ny?

EMMIE

Mae'n mynd off drwy'r amser.

ANGELA

Pwy sy'n iwso 'letric ni?

EMMIE

Ni.

ANGELA

Na, fi'n credu bod rhywun arall yn iwso fe.

'Sdim ffordd yn y byd ni'n iwso gyment â 'ny...

MR CHURCH

Helo. Emma?!

Emmie turns back to calm her mother down. But she has disappeared into her room.

Emmie goes to open the door.

Mr Church, a 30 year old man who dreams of being a property developer, but is merely managing the site for his father who owns MONTANA HEIGHTS.

MR CHURCH (CONT' D)

Bydd hi'n pour-o lawr cyn hir.

EMMIE

Na fydd.

She goes over to the barometer. Taps it

MR CHURCH

Beth yw hwnna?

EMMIE

Baromedr.

MR CHURCH

Ro'n i'n meddwl mai ornament oedd e.

EMMIE

Nage. Mae'n mesur gwasgedd atmosfferig,

sy'n cael ei ddefnyddio yn ei dro, i ragweld y tywydd.

MR CHURCH

O. Who'da' thought?

Pause, as he looks around.

MR CHURCH (CONT' D)

Chi'n cadw'r lle'n daclus!

EMMIE

Diolch.

MR CHURCH

Bydden i'n hoffi dweud bod pawb arall yr un peth yn condos nhw.

EMMIE

Mobile home yw e, Mr Church.

He's been insulted

MR CHURCH

Sori?

EMMIE

Nage condo yw e. Static yw e.

MR CHURCH

Chi eisiau lettric chi nôl 'mlaen?

EMMIE

Ydyn.

MR CHURCH

Right te. Derbyn y compliment a dweud diolch.

EMMIE

'Sen i'n ddiolchgar, taset ti jesd yn rhoi'r 'lettric nôl 'mlaen.

MR CHURCH

Bydd angen yr arian arna' i erbyn heno.

EMMIE

lawn.

MR CHURCH

Sa'i eisiau i unrhyw un ddweud bod gyda fi favourites.

'Fallai dylech chi fynd am ampage mwy.

EMMIE

Pam 'sen i angen 'ny? Yr unig beth ni'n iwso yw - washing machine, 10 amp; Toaster 9 amp, microwave 5 amp. Ni ddim angen mwy a ni ffili fforddio fe chwaith.

MR CHURCH

(pointing to the monitors)

Os chi methu fforddio fe, 'fallai bod angen i chi gael re-think am y sgrîns yma i gyd.

EMMIE

Pam?

MR CHURCH

Wel, ma'n rhaid bo' nhw'n defnyddio o leia', www, beth yw voltage hwnna?

EMMIE

Wattage.

MR CHURCH

Whatever.

EMMIE (she continues)

LCD display, dau-ddeg dau inch... mae'n iwso tri deg watt am bump awr y dydd, a'r gost yw ugain ceiniog i bob kwh, so tua naw deg un ceiniog y mis, so deg punt nawdeg pump ceiniog y flwyddyn.

MR CHURCH

Mae plasma gyda fi. Fifty inch!

EMMIE

Cant a deg punt y flwyddyn.

MR CHURCH

Wel os ti methu fforddio fe, efallai byddwch chi methu aros yma. Chi'n gwybod 'ny, ie?

Ni ddim yn charity.

EMMIE

Na fi'n gwybod 'ny.

MR CHURCH

Fi angen cadw llygad ar portffolio fi.

EMMIE

Pa portfolio?

MR CHURCH

Fy eiddo. Investments fi.

EMMIE

Ti'n edrych ar ôl y site 'ma i dy dad.

MR CHURCH

Fi wastad yn gallu ffonio'r social services os yw pethau'n mynd yn too much...

EMMIE

Ni'n fine.

MR CHURCH

Right.

Pause

MR CHURCH

Sut mae dy fam?

EMMIE

Fi newydd ddweud, mae hi'n fine.

MR CHURCH

Mae hi yma then?

EMMIE

Fi'n gorfod mynd i'r ysgol.

MR CHURCH

Sai'n gwybod sut ti'n 'neud e.

EMMIE

'Neud beth?

MR CHURCH

Edrych ar ôl mam ti. Gwaith ysgol.

Mae full time job gyda ti fan hyn.

EMMIE

Fi 'di clywed 'na lot o weithiau.

Mr Church is looking around the home, trying to find fault in something.

EMMIE (CONT'D)

Nawr, os nagoes ots 'da ti, 'nei di sorto'r 'letric?

He turns to leave

MR CHURCH

Bydd angen yr arian arna' i yn gynta'.

He goes. Emmie sorts out the tablets and the food for her mother for the day, and sets them out carefully on the breakfast bar.

EMMIE

Mam. Fi off. Mae bwyd a meds mas i ti.

'Na i texto ti i atgoffa ti.

Angela appears

ANGELA

S'o ti'n dod adre' amser cin'o?

EMMIE

Fi ffili, Mam. Mae gwaith 'da fi fi'n gorfod gorffen. Mae aseiniad ffiseg 'da fi i gyflwyno ac os fi ddim, bydda' i'n ffili 'neud e fel un o'n opsiynau i.

ANGELA

Opsiyne?

EMMIE

Mae'n rhaid i fi 'neud ffiseg i gael beth fi angen i fynd i uni...

ANGELA

Uni? Nag'yt ti bach yn ifanc i fod yn meddwl am fynd i'r coleg?

EMMIE

Wel, o'n i'n gobeithio ...

ANGELA

God, ma' popeth wastad ambiti ti nagyw e? Bob tro!

EMMIE

Mam...?!

ANGELA

A 'shgw! ar y lle 'ma, fel 'se bom 'di ffrwydro 'ma...

EMMIE

Mam ..!

ANGELA

Os ti'n meddwl bo' fi'n mynd i 'neud e, gelli di feddwl 'to...

ti'n gw'bod bo' fi'n dost... Selfish!

As Emmie watches her go back to her room. She picks up her bag and turns to go to school. She turns back to face the room...

EMMIE

Pan fydd storm yn bygwth trasiedi

Creda fi

Dwi'n 'nabod siâp fy myd.

School buzzer rings out.

GOLYGFA 3

Classroom in a rundown comprehensive. Year 9 physics class. Four boys, they all wear ridiculously sized watches -

Lloyd, a likeable 15 year old, very enthusiastic, he has to work really hard to get an average mark.

Thomas, a cool, laid back kid from England.

Griff, the kid who thinks he's cleverer than he is. He has lots of extra lessons paid for by his parents.

Chris, average kid, who doesn't really care about school. Obsessed with gaming, beyond the average obsession. Cardiff City Supporter

And one girl, Emmie.

"Walt", their science teacher, he is in his late forties, jaded and resents teaching children who will ultimately achieve more than him. He doesn't know any of the kids names - ever.

WALT

Rhowch eich ffôn chi i gadw. Lloyd Evans?

LLOYD

Yma, Syr.

WALT

Chris Squire?

CHRIS

Yma Sir.

WALT

Thomas Chessington Smythe?... Ble 'yt ti 'di bod?

THOMAS

Double Banjo.

WALT

Cerddori'eth? Ydyn ni'n dal i 'neud cerddori'eth 'ma? Griff O'Connor? A tithe?

GRIFF

Double Bass...

WALT

Reit y diawled, os gaf fi eich sylw perffaith, ma' 'da fi gwpwl o gyhoeddiade cyn i ni
glatsho bant – Opsiyne. Ma' angen i'ch ffurflenni chi fod mewn erbyn diwedd yr
w'thnos. Erbyn pryd fydda' i angen nhw?

THOMAS

Next week, Sir.

GRIFF

Ti gallu 'neud e online, Sir.

WALT

Fi'n gwybod 'ny, ond fi mo'yn i chi brinto nhw mas.

GRIFF

Pam?

WALT

Fel bo' ni'n gallu checio nhw'n gynta'.

GRIFF

Pam?

WALT

Er mwyn 'neud yn siwr bo' chi ddim yn 'ymestyn' eich hunen gormod.

CHRIS

Mae'n alright, Sir, fi just eisiau bod yn athro ffiseg.

Walt goes to clip Chris around the head. Chris blocks him.

CHRIS (CONT'D)

Oi! Child protection Sir.

WALT

A sai mo'yn dim o'r nonsens Chat GPT+ 'ma

THOMAS:

You use it, Sir.

(wrth y plant eraill)

My parents said the adroddiad hanner tymor sounded like an AI bot.

WALT

AI beth?

Emmie rushes in...

EMMIE

Sori Syr!

WALT

Ti'n hwyr, eto.

She presents her Young Carers Card

WALT

Be' 's'da ti fynna?

EMMIE

'Y 'ngharden ID.

WALT

Nage hwnna eto, s'o ni'n derbyn rheiny rhagor – ro'dd rheina jest ar gyfer cyfnod Covid.

EMMIE

Ond...

WALT

Gwaith cwrs?

EMMIE

Sori Syr, bydd e gyda ti 'fory.

WALT

Bydd 'fory'n rhy hwyr. Gei di 'neud e amser cin'o. 'Stedda.

Shgwllwch, pryd y'ch chi'n mynd i sylweddoli bod eich portffolios gwaith cwrs yn rhan o'ch marc terfynol? Mae'n rhaid i fi'n llusgo ni, chi, drwy'r arholiade 'ma.

Fel ro'n i'n sôn, cyn i rywun dorri ar 'y nhraws i, i'r rheiny ohonoch sy' mo'yn cyrr'edd pinacel addysg bellach neu â bod yn fwy plaen, i'r rheiny sy' mo'yn cael eich hunen i ddyled am weddill eich oes, mae'n rhaid i chi baratoi eich opsiyne ar gyfer eich TGau, er mwyn gallu gwneud eich Lefel A cyn diflannu i'r coleg. Fi yw eich Obi Wan Kanobi, 'I am your only hope'. Dyma'ch cyfle chi i gael hyn yn iawn.

Emmie reaches into her bag and starts texting.

GRIFF

Ti methu defnyddio ffôn yn y dosbarth.

EMMIE

Fi'n cael.

WALT (to Emmie)

Just rho hwnna i gadw 'nei di?

Ti 'di colli digon o wersi'n barod heb i ti darfu ar yr un yma 'fyd.

WALT (CONT'D)

Atgoffwch fi, beth yw eich opsiyne chi?

THOMAS

Early Baroque Music yn Oxford.

CHRIS

Wha'? Ar y Banjo?

WALT

S'o ti ar University Challenge, grwt. Opsiyne 'wedes i.

LLOYD (interrupting)

Syr, fi'n meddwl am Cardiff Uni...

GRIFF

Aros yn agos i Mam, is it?

CHRIS

Ie, ti ddim eisiau colli job ti yn garage mam ti, wyt ti byt?

LLOYD

Fi'n hoffi Caerdydd.

WALT

Y metropolis!

LLOYD

Ble est ti, Syr?

WALT

Plymouth.

GRIFF

Oo errrr!

CHRIS

Oes Uni yna, Sir?

WALT

Oes. Erbyn hyn.

A ble fyddi di'n mynd Christopher, ar ôl i ti ddod mas o'r carchar?

CHRIS

Sheffield. Gaming, Sir.

WALT

Gaming?

CHRIS

Game development.

WALT

Beth, mae 'na gwrs game-o?

CHRIS

Ie, ti'n gallu defnyddio PlayStation labs, datblygu kits a Oculus Rift ...

WALT

Ydi hwnna yn Zulu?

CHRIS

Wha'?

LLOYD

Cŵl. Ti wedi chwarae FF15?

Chris looks at him in disdain.

CHRIS

'S'ok os ti'n hoffi anime...

THOMAS

Neu Japanese role-playing...

The boys start talking about gaming.

GRIFF

Mae'n gweithio'n dda, even though mae'r camera a'r lock-on

system ddim y mwyaf reliable a dyw e ddim yn dangos yr action yn iawn.

WALT

Oreit, oreit! A ti'n gweud wrtha' i bo' ti'n gallu ennill gradd yn hyn i gyd?

CHRIS

BA Honours.

WALT

Wel pob dymuniad da i ti – Pacman!

The boys have no idea what he's talking about

CHRIS/GRIFF

Pacman?

LLOYD (To Emmie)

Ble wyt ti eisiau mynd Emmie?

EMMIE

Indiana.

LLOYD

Sori?

EMMIE

Indiana, yn yr Unol Daleithiau.

GRIFF

Be ti am astudio f'yna?

CHRIS

The Temple of Doom!

EMMIE

Stormydd.

CHRIS

Stormydd?

EMMIE

Sustemau tywydd eithafol.

GRIFF

Fel tornados?

THOMAS

Fel twisters?

LLOYD

Fel typhoons?

EMMIE

Na. Mae typhoons yn digwydd ar y môr.

GRIFF

Sut ti'n gallu fforddio fe?

EMMIE

Bursary neu...

CHRIS

Burser wha'?

THOMAS

If you can't afford it, maen nhw'n talu.

EMMIE

Neu ysgoloriaeth, os ti'n dangos bo' ti'n rili dda yn rhywbeth, maen nhw'n cynnig ysgoloriaeth i ti.

WALT

OK, wnawn ni drafod hynny ar ôl y wers. lawn, at y cyhoeddiad nesa', mae'r pennaeth adran hollalluog, y Sith Lord, wedi rhoi gwybod i fi bod rhaid i fi aberthu sesiynau'r pythefnos nesa' ar gyfer y peth Crest Award for Scientific Invention 'ma.

THOMAS

Because yr ysgol is hurtlo lawr y league tables, is it, Sir?

CHRIS

Ni fel y version ysgol o Cardiff City!

GRIFF

Mwy fel Swansea City!

CHRIS

Leave it! O leia' ni dal yn y Championship.

GRIFF

Ie only just!

THOMAS

My mam says pêl-droed is a gentlemen's game played by hooligans.

WALT

Ta waeth! Y wobr Crest 'ma. Ma' isie i ni ddyfeisio rhywbeth tebyg i'r Large Hadron Collider erbyn hanner tymor.

LLOYD

Aeth y boi yna i ysgol gyda Grandad fi.

CHRIS

Beth oedd enw fe?

LLOYD

Lyn Evans, fi'n meddwl.

THOMAS

Mae'n Gymro?

CHRIS

Yep. Cymro i'r carn.

THOMAS

O Aberdâr?

CHRIS

Oedd, just off Bro Deg yn Cwmbach.

GRIFF

Evans the Atom oedd pawb yn galw fe.

WALT

Diolch Wikipedia. Ble ma' fe nawr? Hy?

Y BOIS

Switzerland, Sir.

WALT

Nawr te, bydd isie i chi weithio mewn grwpiau neu barau. Bydd y tîm buddugol yn symud 'mlaen i gynrychioli'r ysgol yn y bencampwriaeth genedlaethol. Sortwch chi eich hunen...

EMMIE

Oes rhaid i ni weithio fel tîm, s'o ni'n gallu gweithio'n annibynol?

WALT

Na, chi'n gorfod gweithio mewn parau.

LLOYD

Sai'n meindio mynd gyda merch...

WALT

OK, Jimmy Neutrom cei di fod yn bartner i Dora the Explorer.

WALT turns to the White Board and writes

WALT (CONT'D)

A nawr, back to reality. Yr hyn ry'n ni gyd wedi bod yn aros amdano fe – Deddf Gynta' Newton. Oes, ma' 'na fwy nag un. Oes unrhyw un isie mentro?

Silence

EMMIE

Bydd corff yn aros yn llonydd neu mewn mudiant unffurf, mewn llinell syth oni bai bod grym cydeffaith neu net yn gweithredu arno.

WALT

Cywir. Ei Ail Ddeddf...

GRIFF

Mae'r newid mewn momentwm yn gyfystyr a'r grym a roddwyd...

EMMIE

Y **raddfa** o newid, Syr, ac i gyfeiriad y grym allanol...

WALT

Cywir. Y raddfa o newid, ac i gyfeiriad y grym allanol.

Griff looks at her with contempt. Lloyd is smitten.

WALT (CONT'D)

...Trydedd Deddf Newton...

LLOYD

Fi'n gwybod hwn Syr, Fi'n gwybod hwn...

WALT

Dere te...

All the class look to him

LLOYD

Pan mae dau gwrthrych yn ymmm... rhyngweithio(!) maen nhw'n.. ymm...

GRIFF

Come on Stephen Hawkins.

LLOYD

Ymm... o beth yw'r gair 'na?

EMMIE

Dirgroes.

LLOYD

Hy?

EMMIE

Maen nhw'n rhoi grymoedd hafal a dirgroes ar ei gilydd.

She looks to Lloyd.

The buzzer for the end of lesson goes. Emmie packs her things away.

WALT

Gwnewch yn siwr eich bod chi wedi nodi'r stwff 'ma!

They exit. Lloyd goes to say thank you to Emmie for helping him, but instead Walt cuts in...

WALT (CONT'D)

Emmie, gair.

Ma' dy bennaeth blwyddyn a finne wedi cael sgwrs a mae'r ddau ohonon ni'n meddwl bydde symud ti o'r dosbarth Ffiseg i bwnc llai heriol fel gwyddoniaeth gyffredinol yn help i ti.

EMMIE

Ond fi angen 'neud ffiseg i gael lle yn Indiana.

WALT

Ma' bioleg yn bwnc lot mwy poblogaidd gyda merched. Neu ddaearyddiaeth – y dyniaethe gyda bach o wyddoni'eth yn y mix.

EMMIE

So?

WALT

Ni'n poeni bod...

EMMIE

Sai'n stryglo gyda'r pwnc, ydw i?

WALT

Ma' dy waith cwrs di wastad yn hwyr a hebddo fe, byddi di'n methu'r arholiad.

EMMIE

Ond fi yw'r gorau yn...

WALT

Nage ti yw'r gore. Ti'n weddol, fel pawb arall. Mae'n rhaid i fi ga'l pawb yn y dosbarth i basio'r arholiade. 100% Mae'r penderfyniad wedi'i 'neud. Byddi di'n newid pwnc ar ôl hanner tymor. Ni'n 'neud hyn er dy les di. Byddi di'n diolch i fi rhyw ddiwrnod.

Emmie is left on her own. Lloyd enters.

LLOYD

Haia. Ro'n i just eisiau dweud diolch am helpu fi gyda'r trydydd deddf... Ro'n i'n meddwl bod fi'n gwybod e... "Maen nhw'n rhoi grymoedd hafal a dirgroes ar ei gilydd..."

Emmie ignores him.

LLOYD (CONT'D)

So, ti eisiau cyfarfod?

EMMIE

Na.

LLOYD

I siarad am y wobr?

EMMIE

Na.

LLOYD

Ni fod i weithio fel pâr...

EMMIE

Sai'n 'neud y wobr...

LLOYD

Pam ddim?

EMMIE

Dyw e ddim yn gadael i fi 'neud Ffiseg. So, beth yw'r point?

Emmie leaves.

CÂN 2 – RHYW DDYDD / LLOYD'S SONG

LLOYD

Yr hafau hir yn paratoi

Teimpladau anodd i'w hosgoi

Llund bol o ofn bod Medi nawr ar droed

Drysau'n agor fi'n dweud dim

*Dwi'n trio cuddio, erbyn hyn
Dwi'n gwybod bo' fi'n weird am fy oed.*

Ond dyna hi yn sefyll heb ddim gofid

Dwi'n cofio bo' hi'n gorgeous yn syth bin

Ac erbyn hyn dwi'n barod am rhyw newid

Hi yw yr un.

Emmie enters.

EMMIE

Beth?

Nes i anghofio'n fag.

LLOYD

Ma' disgyrchiant yn rym llawn swyn a hud

Gall hi gwympo, dwi am ei dal hi

Mewn cariad perthynol, hi a fi

Geith hi amser, gofod, cariad pur ...

Rhyw ddydd.

Ro'n i'n trio ngorau glas

I ddal ei llygaid, cefais ras -

Cael eistedd wrth ei hymyl bob dydd Llun

Gobaith gwag i gemeg droi'n

fioleg rhyngom, ac osgoi

cwestiynau ffiseg

anodd iawn i'w trin.

Roedd ganddi ateb cywir i bob cwestiwn

A minnau'n eistedd yno'n hollol fud

Crefu sgwrs 'da hi, Dduw, clyw fy myrdwn

Em fi 'ma, unrhywbryd.

Ma' disgyrchiant yn rym llawn swyn a hud

Gall hi gwympto, dwi am ei dal hi

Mewn cariad perthynol, hi a fi

Geith hi amser, gofod, cariad pur

Rhyw ddydd.

A falle bydde cyfle i gyfarfod

Yn rhoi darlun clir i ti mod i'n werth dod i nabod

Ma' disgyrchiant yn rym llawn swyn a hud

Gall hi gwympto, dwi am ei dal hi

Mewn cariad perthynol, hi a fi

Geith hi amser, gofod, cariad pur.

Ma' disgyrchiant yn rym llawn swyn a hud

Gall hi gwympto, dwi am ei dal hi

Mewn cariad perthynol, hi a fi

Geith hi amser, gofod, cariad pur.

Rhyw ddydd.

Emmie returns home to Montana Heights to see her home, the caravan lit up. Mr Church stands outside with his clipboard. Emmie rushes past him...

EMMIE

Ddof fi â'r arian draw 'fory...

MR CHURCH

Does dim angen. Mae'r bil wedi setlo...

EMMIE

Sut?

MR CHURCH

Chwaer ti.

EMMIE

Hanner chwaer.

MR CHURCH

Talodd hi'r bil.

EMMIE

Faint dalodd hi?

MR CHURCH

Popeth.

EMMIE

Be'?! Bob ceiniog?

Emmie is furious and turns to go.

MR CHURCH

Does dim licence gyda hi, mind.

EMMIE

Trwydded?

MR CHURCH

Parcio. Ar gyfer y site.

EMMIE

S'o hi'n aros.

MR CHURCH

Wel, os yw hi yma mwy na dwyawr, bydd hi angen 'trwydded'.

EMMIE

Dd'weda' i wrthi.

Emmie turns to go

MR CHURCH (handing her a large envelope)

Hei, daeth hwn i ti. Roedd angen signature, a gyda mam ti fel mae hi...

EMMIE

Diolch.

MR CHURCH

Ball State University, Indiana. US of A

EMMIE

Wnest ti agor e?

MR CHURCH

Na. Postmark.

EMMIE

Diolch.

Emmie enters the mobile home, there are a couple of empty bottles of wine with one half drunk. Karen, her older sister is sitting with her mother.

ANGELA

'Co hi!

KAREN

Rachel Riley bach ni.

EMMIE

Be' mae hi'n 'neud 'ma?

ANGELA

Paid â dechre...

KAREN

O'dd hi arfer bod yn ferch fach mor lyfli.

EMMIE

Fi'n synnu bo' ti'n cofio.

ANGELA

O't ti arfer cyrlo a phlethu'i gwallt hi, yn do't ti?

KAREN

'Wi'n thredo aelie nawr.

EMMIE

(under her breath, sarcastically)

Am dalent.

Emmie takes the empties and puts them in the bin.

ANGELA

Www 'shgw, 'wedes i bod gan hon LCD...

EMMIE

OCD...

ANGELA

...'Wedes i, yn'do fe? Yn do... wastad yn clirio, ffili godde' mess, 'yt ti?

EMMIE (to her sister)

Ti'n gwybod bod hi ddim fod i yfed...

ANGELA

'Wi jest yn cael un gyda dy chwa'r.

KAREN

'Ma'r gore fi 'di gweld hi erio'd.

EMMIE

(ignoring Karen)

Mae'n mynd at y doctor 'fory.

KAREN

Fi'n credu bod y tablets yn 'neud hi out of it tam bach.

EMMIE

Sut 'set ti'n gwybod? Ti ddim yn edrych ar ei hôl hi.

ANGELA

P'id'wch nawr.

KAREN

Ie wel, fi'n rhy brysur nag'yf fi?

Karen is uncomfortable.

EMMIE

Be' gyda'r mobile disco 'na'th Dadi ti brynu i ti?

KAREN

Salon yw e.

EMMIE

Mewn van.

KAREN

Mobile salon.

ANGELA

Pam ti mor feirniadol drw'r amser?

KAREN

'Sdim rhyfedd bo' fi byth yn dod 'ma.

EMMIE

S'o ti'n dod 'ma achos ti'n teimlo cywilydd...

ANGELA

Cywilydd? Pam? O be'? Achos fi? Ti'n trio awgrymu rh'wbeth 'to...

Emmie notices that the tablets have not been touched.

EMMIE

Mam, s'o ti 'di cymryd rhain...!

ANGELA

Wel fi ffili cymryd nhw os 'wi'n mynd i yfed, y'f fi?

EMMIE

'Na'r point. S'o ti fod i yfed. Nes i texto ti...

KAREN

Ti'n well off hebddyn nhw ta beth.

EMMIE

Nagwyf ddim. / Nagyw ddim.

ANGELA

Ydw, fi yn. Ma' Karen yn gweud bo' nhw'n 'neud fi'n dew, 'na i fyth ff'indo tad i ti, yn edrych fel hyn.

EMMIE (to Karen)

Ti angen gadael nawr.

ANGELA

'Na ti, sbwyla popeth 'to!

Ffones i hi a da'th hi draw yn syth. Ma'i 'di talu i ni ga'l y 'letric nôl 'mla'n. Bob tro 'wi'n trial ennill bach o 'mywyd i nôl, ti'n chwalu fe 'to! Ti jesd fel dy dad, yn sugno'n enaid i oddi wrtha' i. Ac os ti'n meddwl 'wi'n mynd at y doctor 'fory, gelli di feddwl 'to!

Angela storms into her bedroom and slams the door. Silence as Emmie is desperately trying to compose herself.

KAREN

Shgw!l, des i draw achos o'dd Mam angen fi...

EMMIE

Ie, pan mae'n siwto ti!

KAREN

Paid siarad 'da fi fel 'na...

EMMIE

Pam ddim?

KAREN

Ti'n gwybod nage fi yw'r person iawn i edrych ar ei hôl hi...

EMMIE

...Ond fi **yw'r** person iawn?

KAREN

Mae'n wahanol i ti.

EMMIE

Sut?

KAREN

S'o ti'n cofio Mam fel o'dd hi...

Music for **EMMIE DON'T SAY** begins

EMMIE

Ro'n i'n 8...

Karen goes to get her bag and coat and turns to leave

CÂN 3 – EMMIE PAID DWEUD / EMMIE DON'T SAY -

EMMIE (CONT'D)

'Sneb 'rioed wedi holi'n iawn

Neb 'rioed wedi holi pam

'Wi di colli pob un cyfle ddaeth i'm rhan i

Sai'n siwr os 'wi'n hapus i

Fod yn rhywun sy' ddim yn fi

Wedes i 'ie', neu o'n i'n fud?

Wi'n siwr nes i ddim cynnig.

Ti'n lordio byw

(A) fi'n ferch fach driw

A'r unig beth dw i'n cael dweud yw 'iawn, mae'n fine.'

KAREN

Emmie paid sôn

Emmie paid dweud

Emmie rho wên a derbyn dy ffawd di

Emmie paid dweud

*Emmie bydd oer
Emmie bydd gry'
Emmie paid gofyn am resymau lu*

*Pam ti, nid fi
Emmie paid dweud*

Karen exits. Emmie starts her routinely chores, of sorting out meds and clearing up. Picks up and tidies away the hair dryer and curling tongs left out by her sister.

EMMIE

*'Wnai olchi llestri hyd syrffed
'Neud yn siwr bo' hi'n llyncu'r meds
Chei di fyth cael gweld tu fewn fan hyn achos yma mae 'ngobeithion
- am fywyd sydd yn well na hyn
llawn gwên a chân, cofleidie tynn*

Heb y pwysau, arian prin

Yn chwalu ein breuddwydion

Ti'n lordio byw

(A) fi'n ferch fach driw

A'r unig beth dw i'n cael dweud yw 'iawn, mae'n fine.'

*Emmie paid sôn
Emmie paid dweud
Emmie rho wên a derbyn dy ffawd di
Emmie paid dweud
Emmie bydd oer
Emmie bydd gryf
Emmie paid gofyn am resymau lu*

Pam ti, nid fi
Emmie paid dweud.

Ac o pam fi

Sydd yn gaeth 'ma heb gael dianc?

Ac o pam fi

Sydd yn methu bod yn ifanc?

She opens the envelope of the course in Indiana. She reads

EMMIE (CONT'D)

Dear Ms Price, Thank you for your
correspondence regarding your interest in Ball Sate University. Please note that your
course will require the equivalent of A grades at A Level in mathematics, computer
science and physics.

CAST

Emmie paid sôn
Emmie paid dweud
Emmie rho wên a derbyn dy ffawd di
Emmie paid dweud

Emmie sits and gets her laptop out and we are back with Bud and Ched the news
update of the storm hitting America.

BUD

Well, we all want to wish Ched a speedy recovery and so over we go for an update
from his hospital bed.

CHED

Well, there is no end in sight for this storm dissipating. I'm just sorry I can't be out there, in the centre of it all.

BUD

Have you ever travelled to the eye of the storm Ched?

CHED

No no one has, so we never really know how much power is in one of those twisters.
We can only guess

BUD

So, how much power do they think is in these destructive forces of nature.

CHED

Well, the latest estimate is an average tornado has about 10,000 Kilowatts

BUD

Well pickle my dill! How many light bulbs is that Ched?

CHED

Well with my rough calculation Bud... thats...say...

EMMIE

...Can mil o light bulbs.

Emmie is transfixed by the report. Her gaze fixes on the pendant light above her head.

Suddenly everything electric within the house comes to life.

A projection of a storm gathers around her. The projected images of the storm take over.

GOLYGFA 5

Crossfade to 24 hour garage on Penderyn Rd.

Lloyd is behind the counter. A beeping alarm sounds out. Lloyd goes onto the microphone

Beeping sounds out from the console.

LLOYD

Number six, rhif chwech, you haven't put the nozzle back correctly. The nozzle! Na, dim ti, number 5, you're fine. That's it. Diolch chi'ch dau!

Lloyd punches the buttons to stop the beeping. Emmie enters.

LLOYD (CONT'D)

O haia. Ti eisiau help gyda unrhywbeth? Os ti'n prynu'r Aberdare Leader ti'n gallu cael free Calippo!

Awkward pause

EMMIE

Fi rili angen 'neud y wobr 'ma...

LLOYD

OK...

EMMIE

...gyda ti...

LLOYD

OK, fel tîm. So oes unrhyw syniadau gyda ti?

EMMIE

Oes. Corwynt ffug...

LLOYD

Oh...

EMMIE

Egni adnewyddadwy...

LLOYD

Oh..

EMMIE

I greu lettric...

LLOYD

Mas o corwynt...?

So, cael lettric, o tornado – yn Aberdâr...

EMMIE

Shgw!l, ti'n mynd i helpu fi neu ddim?

LLOYD

Ie, go team!

Music for Lloyd's song begins She turns to go. He calls her back

LLOYD (CONT'D)

So ti'n meddwl os ti'n ennill y wobr, byddi di'n gallu mynd i America?

EMMIE

Ennill y wobr, ail-ymuno 'da'r dosbarth ffiseg, ennill lle yn Indiana.

LLOYD

Does neb arall o ysgol ni erioed wedi 'neud unrhywbeth fel 'na.

EMMIE

Fel beth?

LLOYD

Mynd i coleg yn America.

EMMIE

S'o hwnna'n meddwl bod e'n methu digwydd.

LLOYD

Na, na.

EMMIE

Fi just gorfod dangos i Walt.

LLOYD

A beth am Mam ti?

Emmie turns to go, choosing not to answer the question

Lloyd realises he has said the wrong thing. She then comes back.

EMMIE

Diolch, Lloyd.

Emmie leaves.

CÂN – RHYW DDYDD / LLOYD'S SONG (REPRISE)

LLOYD

Ma' disgyrchiant yn rym llawn swyn a hud

Gall hi gwympo, dwi am ei dal hi

Mewn cariad perthynol, hi a fi

Geith hi amser, gofod, cariad pur.

Rhyw ddydd.

Music takes us on to the residential park, it's dusk and as the sunsets, we see the warm glow of the lights inside the mobile home.

GOLYGFA 6

Emmie enters her home, and it's all clean, the table is laid for tea and her mother is there in an apron, putting a huge plate of Lasagne on the table.

Pause.

ANGELA

O cariad, ti adre' jest mewn pryd. Dy ffefryn di – lasagne a bara garlleg.

EMMIE

Mam, ma' hwn yn edrych yn amazing.

ANGELA

Jesd angen twymo fe. S'o ni 'di treulio lot o amser 'da'n gilydd yn ddiweddar. 'Wi 'di gweld ishe cwcan. Ti 'mbo, nawr bo' ni 'di sorto'r doses, 'wi'n credu bo' pethe ar fin gwella i ni.

EMMIE

Ie.

ANGELA

'Wi'n sori am y nonsens 'na 'da Karen. Mae'n trio'i gore, ond 'falle bo' rhai pobl yn dda am roi gofal a dyw rhai pobl ddim. 'Wi'n sori bo' ti'n gorfod ysgwyddo popeth. Ti yn gw'bod 'ny, on'd 'yt ti?

EMMIE

Ydw.

ANGELA

'Wi'n t'imlo fel 'sen i 'di bod yn byw yn y niwl ers wythnose ond ma' pethe'n dechre
clirio, tim'bo? So, beth yw dy niws di?

EMMIE

Dim byd.

ANGELA

Beth yw hwn te?

Angela hands Emmie the envelope from Indiana.

EMMIE

Breuddwyd, Mam.

ANGELA

Ma'n bwysig ca'l breuddwyd, cariad. Ti'n meddwl cei di le?

EMMIE

'Wi'n mynd i drio, Mam. Rhaid i fi gael y ffiseg 'ma gynta...

ANGELA

Pa reswm gwell i fi sorto'n 'unan mas? Wi jest wedi bod ishe'r gore i ti.

EMMIE

'Wi'n gwybod Mam. Wi'n gwybod.

CÂN 5 – TI F'ANGEN I / NEEDING ME.

EMMIE (CONT'D)

Dwi'n gweld y drysau

Dwy ffenest fach

(ond) Pan 'wi 'ma sai'n gweld bod ffordd mas heb greu strach

Ac er bo' byd tu fas

Byd sy'n llawn a bras

Sai' am adael Mam sy' ddim yn iach.

'Fallai 'mod i heb ddeall pam

'Mod i heb gadw draw

Ti byth yn diolch am fy rhan

Am roi help llaw.

Ond os wnai gymryd siawns a mynd

Darganfod pwy ydwi fy ffrind

Tase aros ddim yn rhaid

Gohirio mywyd yn ddi-baid

'Sen i'n dweud 'digon'

Mynd heb ddweud, heb ddim atebion

'Sen i yn rhydd?

Fyddai'n bosib byw

heb bo' ti f'angen i?

Suddenly the electric goes off and we are in blackout.

The lights come back on and we see that Emmie is on her own. There is no supper laid out for her. All of it was just her wishful thinking. Her dream.

We then hear crying.

Her mother appears in the doorway as in the first scene.

ANGELA

Emmie? Emmie?

EMMIE

Power cut eto.

ANGELA

Ma'n rhy dywyll, fi ofon... Ai storm yw e?

EMMIE

Na Mam, mae'n ok, Mam...'Na i sorto fe.

ANGELA

Be' 'sen i'n 'neud hebddot ti?

EMMIE

Nos da, Mam.

CÂN – SIÂP FY MYD / ALIVE (REPRISE) (Cerddoriaeth Needing Me)

EMMIE (CONT'D)

Pan fydd glaw yn arllwys drosom ni

Creda' fi

Dwi'n 'nabod siâp fy myd.

Blackout. End of Act 1.

ACT 2

GOLYGFA 7

Beautiful sky over Montana Heights. Rumbling of distant thunder.

Instrumental reprise of Emmie Don't Say. Emmie is asleep, still in her school clothes, on the settee. Electricity comes back on, which powers up her laptop.

Mr Church is on his way over.

MR CHURCH

Emma! Emma! Emma!

EMMIE

Aros funud...

She gets up and answers the door.

MR CHURCH

Ydi e nôl arno?

He walks right in.

EMMIE

Ydi, mae e nawr, ond aeth e off eto neithiwr.

Pam mae e'n cadw 'neud 'na?

MR CHURCH

Dunno. 'Fallai taw surge oedd e.

EMMIE

Be'?

MR CHURCH

Wel, mae e'n digwydd pan mae pawb yn wotcho'r teli ac yn yr adverts maen nhw
gyd yn penderfynu roi'r tegell arno...

EMMIE

Doedd dim byd 'mlaen neithiwr.

MR CHURCH

Y Llais.

EMMIE

Bydd byth power surge ar gyfer Y Llais.

MR CHURCH

Mae'n waith sychedig... canu.

EMMIE

Mr Church, bydde rhaid berwi miliwn tegell ar yr un pryd i greu power surge.

MR CHURCH

Gogglebox Cymru?

EMMIE (Ignoring him)

So, fi'n mynd i ddweud unwaith 'to – os oes rhywbeth arall yn tynnu'n pŵer ni, licen i
wybod ambiti fe.

MR CHURCH

'Na i investigato.

He turns to leave

EMMIE

Gwna di 'ny.

He's gone.

Angela appears from her room, smartly dressed and made up.

ANGELA

Ydi e 'di mynd?

EMMIE

Ydi, ble ti'n mynd?

ANGELA

At y doctor?

EMMIE

O Mam, anghofiais i. Fi'n hwyr i'r ysgol eto, a mae ffiseg 'da fi. Ni'n creu'r dyfeisiade heddi.

ANGELA

Ma'n ok, âf fi ar 'y mhen yn hunan.

EMMIE

Ti'n siwr?

ANGELA

Ydw. Cer di.

Emmie grabs her school bag kisses her mam, and leaves. Cross fade to...

GOLYGFA 8

Physics class. The boys are all working on their inventions for the award but Walt isn't there. Griff is putting Chris into their "invention" - a remote control wrangler, which is basically a ski mask with Velcro which holds a variety of remote controls - "the perfect device for never losing a remote control ever."

Lloyd is busying himself with a list of things he has been given by Emmie to prep for their invention - Kettle, dry ice, tongs , gloves, and four desk fans.

CHRIS

Hei, Lloyd ble mae girlfriend ti then?

LLOYD

Dim hi yw girlfriend fi.

CHRIS

Wnaeth Walt wneud i hi dropo Ffiseg?

LLOYD

Ie, ond mae hi'n credu os mae hi'n 'neud yr award yma, bydd e'n gadael i hi aros ar y cwrs. Beth yw invention chi?

GRIFF, THOMAS, CHRIS

Wrangler remote control.

GRIFF

You'll never lose a remote control eto!

LLOYD

Beth os ti'n colli'r wrangler?

GRIFF

Shut up.

Emmie rushes into the class

LLOYD

Haia...!

GRIFF

Ti'n hwyr!

EMMIE (ignoring Griff)

Ble mae Walt?

CHRIS

Union rep eisiau gweld e.

THOMAS

Mother says yr ysgol have to make redundancies.

CHRIS

Mae e 'di colli job e then.

EMMIE

Sut ti'n gwybod?

THOMAS

Look -

He looks around

THOMAS (CONT' D)

There's only pump o ni in the class.

GRIFF

Pedwar, nawr bo' hi'n gorfod gadael.

CHRIS

Pawb eisiau 'neud Chinese.

THOMAS

That's no surprise gyda'r exchange student 'na.

CHRIS

"Women shì ta zuìhòu de xiwàng"

They all look at Chris.

CHRIS (CONT' D)

"We are his only hope."

GRIFF

Do'n i ddim yn gwybod bo' ti'n siarad Chinese.

CHRIS

Fi ddim, mae'n quote o'r gêm 'ma, "Mark of a Ninja."

Chinese bootleg.

Emmie ignoring the boys, and turns to Lloyd

THOMAS

Beth yw invention chi?

LLOYD

Corwynt.

The boys laugh.

GRIFF

Fi'n credu 'fallai bod Mother Nature wedi creu hwnna cyn chi...

EMMIE

Gest ti'r stwff?

LLOYD

Do, ond roedd Mam bach yn suspicious pan gyrhaeddodd e. Roedd hi'n meddwl bod fi'n cwco Meth yn Craft Room hi...

Emmie starts to set up her experiment. The boys gather round to watch her.

EMMIE

Peiriant tyrfedd artiffisial yw e i greu lettric mas o egni adnewyddadwy.

GRIFF

Swnio fel ti'n creu fart!

CHRIS

Ti'n edrych yn nyts yn y menyg 'na. Maen nhw'n massive arnat ti.

EMMIE

Goggles. Fans

THOMAS

What's that?

EMMIE

Carbon dioxide.

CHRIS

Y gas?

EMMIE

Yn ei ffurf soled, ie.

GRIFF

Dry ice.

CHRIS

Nagyw hwnna'n torri bysedd ti off?

EMMIE

Dyna pam fi'n gwisgo'r rhain.

GRIFF

O, cael picnic is it?

CHRIS

Mae e fel Phantom of the Opera by 'ere.

He starts singing. Radio comes on.

EMMIE

Egni adnewyddadwy...

GRIFF

Sut mae hwnna'n gweithio?

EMMIE

Ni 'di efelychu corwynt i greu egni sy'n pweru'r radio.

GRIFF

'Neith e ddim chwalu tai?

THOMAS

...and kill pobl?

EMMIE

Nage corwynt go iawn. Un artiffisial.

Emmie then connects the artificial tornado to a small turbine underneath the base and that is connected to a small radio which starts to play the intro into Song 5 If You're Gonna Win

Walt enters

WALT

Beth yn enw'r nefo'dd sy'n mynd 'mla'n fan hyn?

CHRIS

Invention Emmie a Lloyd yw e.

LLOYD

Harnesso'r pŵer i greu letric.

WALT

Shgwllwch ar stâd y'n 'stafell ddosbarth i!

LLOYD

Ond edrych be' ni wedi creu!

WALT

Blydi llanast...

They are in awe.

THOMAS

Sir, if they try for this competition, they're going to win!

GRIFF

Beth am un ni?

They all look to Chris, who now looks like someone suffering from a head injury

WALT

Ewch o 'ma chi'ch tri.

Chris, Thomas and Griff leave the classroom.

WALT (CONT'D)

Wel, do's dim data ar yr arbrawf.

EMMIE

Gallwn ni ddangos hynny, Syr.

LLOYD

Sut ti'n mynd i 'neud hwnna?

EMMIE

'Sgwennu code ar gyfer rhaglen.

WALT

Corwynt artiffisial, be' nesa'?

EMMIE

Be' 'sda ti i golli?

WALT

Popeth.

EMMIE

Plŷs Syr, wnawn ni ddim gadael ti lawr.

WALT

Ti 'di gweud 'na wrtha' i sawl tro...

LLOYD AND EMMIE

"Women shì ta zuìhòu de xiwàng"

WALT

Am beth yffach y'ch chi'n sôn?

EMMIE AND LLOYD

We are your only hope...

CHRIS O/S

Well actually.. *"Women shì ni wéiyi de xiwàng"*

WALT

Sut yn y byd gest ti'r syniad 'ma?

EMMIE

Sai'n gwybod, 'na'th e jesd popio mewn i mhen i.

WALT

Eureka moment?

EMMIE

Gallen ni achub y byd, Syr.

WALT

Paid bod mor wirion ychan!

EMMIE

Tasen i'n gallu tyfu'r raddfa, dychmygwch faint o egni adnewyddadwy gallen ni gynhyrchu... Gallen ni gael gwared ar gynhesu byd-eang!

WALT

Yn Aberdâr?

EMMIE

Ma' jest angen bod yn ddewr, Syr.

WALT

Paid siarad â fi ambiti bod yn ddewr. Wi'n dysgu mewn ysgol yn y cymoedd!

Os Ti'n Dod I'r Brig / If You're Gonna Win

EMMIE

'Mond achos ti 'di methu ganwaith

'Falle wna i ddim.

WALT

Bydd rhaid i ti ei gyflwyno fe, cofia.

EMMIE

A 'mond achos ti ofn rhedeg

Wel, dw i yn un sy'n camu'n chwim.

WALT

Ma' 'na dipyn yn y fantol, fel yn swydd i.

Reit, tacluswch y llanast 'ma... Nawr!

Walt leaves.

EMMIE

Os ti'n credu bod hi'n well i ti roi'r gorau

Wel stormydd eraill sydd o'm blaen i,

dyw yr hyn ti'n ei ddweud ddim am amharu.

Bydd pobl bob tro'n dweud be' maen nhw am ddweud

Celwydd yw pob gair y maen nhw'n eu creu

Os ffaelu sydd o 'mlaen i, yr hwch drwy y siop

Diawl, wnes i drio cyrraedd y top so

CORWS (Y Bechgyn i Gyd)

Os ti'n dod i'r brig

Os ti'n dod i'r brig

Weithie bydd brwydr gas

Os ti'n gorfod colli cais

Gorfod cymryd stîd

Ti'n gorfod holi pam

Cym' bopeth yn ei dro, dal dy dir a gwna d'ore

Weithie bydd y stormydd mawr yn diffodd y gole

Ti'n gorfod trio cyn ti'n troi dy gefn.

EMMIE

Mae camgymeriad yn rhoi siawns i mi i ddysgu gwers

Os dwi'n rhoi'r ffidil yn y to, fydda'i fel ti ar gopa'r ffens

Jest bydd yn gall, paid bod yn ddall

Plîs wnei di drïo gweld y llun yn llawn

Creu corwynt ffug, ennill y dydd,

Fe gei di weld bod gen i'r ddawn.

Bydd pobl bob tro'n dweud be' maen nhw am ddweud

Celwydd yw pob gair y maen nhw'n eu creu

Os ffaelu sydd o 'mlaen i, yr hwch drwy y siop

Diawl, wnes i drïo gyrraedd y top so

CORWS

Os ti'n dod i'r brig

Os ti'n dod i'r brig

Weithie bydd brwydr gas

Os ti'n gorfod colli cais

Gorfod cymryd stîd

Ti'n gorfod holi pam

Cym' bopeth yn ei dro, dal dy dir a gwna d'ore

Weithie bydd y stormydd mawr yn diffodd y gole

Ti'n gorfod trio cyn ti'n troi dy gefn.

Gad i fi drïo creu yr hud

'Falle wna'i fethu ond ar hyn mae 'mryd.

CORWS

Os ti'n dod i'r brig

Os ti'n dod i'r brig

Weithie bydd brwydr gas

Os ti'n gorfod colli cais

Gorfod cymryd stîd

Ti'n gorfod holi pam.

Cym' bopeth yn ei dro, dal dy dir a gwna d'ore

Weithie bydd y stormydd mawr yn diffodd y gole

Ti'n gorfod trio cyn ti'n troi dy gefn.

Diwedd y Gân

LLOYD

Tîm.

EMMIE

Tîm.

LLOYD

Roedd hwnna'n hollol awesome.

EMMIE

'Sen i'n dwli gweld un go iawn.

LLOYD

Pam byddai unrhyw un eisiau 'neud hwnna?

EMMIE

Mae mor random! A mae'n beryglus. Ti ffili rhagweld beth fydd e'n 'neud. Mae'r tywydd eithafol 'ma'n dinistrio popeth yn ei lwybr; a tasen ni'n gallu'i fesur e, ei ddiffinio fe, ei ddeall e, gallen ni ddysgu cymaint mwy am ei egni.

We see the most amazing storm system travelling across the cyc and surrounds the two kids.

Reprise of Alive in an electrical version as opposed to acoustic

Cymylau enfawr sy'n chwyrllo, yn newid a thrawsffurfio'n ddi-baid, byth yn unffurf - wedi'u goleuo gan folttiau o drydan sy'n tshiarjo lawr a shiglo'r ddaear, fel 'se fe'n rhyddhau'r holl densiwn sydd wedi adeiladu tu fewn, fel sbarc, fflach sy'n ei fywiogi, a'r unig beth y gelli di'i 'neud yw bod yn ddigon dewr i gamu y tu mewn iddo fe, ei brofi fe a chyrraedd llygad y storm i gael heddwch, serenedd a thawelwch.

LLOYD

Hyd yn oed os yw e'n scêro'r living life mas o ti?

The weather system that had been projected dissipates quickly, and the music carries on quietly underscoring.

EMMIE

Achos wedyn ti'n gwybod bo' ti'n fyw. Yn 'nabod siâp dy fyd. Wedi llwyddo ffeindio rhywbeth nad oes unrhyw un arall wedi'i ddarganfod.

LLOYD

Y final frontier.

EMMIE

Ie.

LLOYD

Ti'n force of nature, Emmie Price.

She smiles at him.

LLOYD (CONT'D)

So, ti eisiau i fi popo draw...

She retreats.

EMMIE

Na.

LLOYD

Wel, ti eisiau dod draw i tŷ fi?

EMMIE

Na.

LLOYD

I 'neud y côdio?

EMMIE

Na, fi'n gallu 'neud e.

LLOYD

Sai'n meindio?

EMMIE

Na ond ma' ots 'da fi.

She realises she is being too abrupt

EMMIE (CONT'D)

Mae'n ok, fi'n gwybod be' fi angen 'neud.

LLOYD

Ok. Ond os wyt ti angen help. Ti'n gwybod ble ydw i, yn y garage...

Lloyd leaves.

Reprise of Alive

We see Emmie go to her computer and start coding the programme to show the exponential growth of the tornado.

Data and coding projected onto the screen. Blackout

Act 3

Bud and Ched appear once again.

As the music plays, Emmie wakes up and starts her usual routine of getting food and medication ready for her mother.

BUD

It's great to have you back with us Ched.

CHED

Well it's great to be back.

BUD

And how's that weather looking out there

today?

CHED

It seems that, that system is now moving north.

I think we will probably see some fine weather coming our way...

BUD

You sound a bit disappointed there Ched?

CHED

Well you know me, I just want to chase those storms.

BUD

Is it me Ched, but do you think there are more storms now or are we just getting a hell of a lot better at reporting them?

CHED

Well one thing's for sure, they're definitely getting stronger Bud. And some say that's all down to good ole global warming...

BUD

Do you give any mind to this, Ched?

CHED

Well, things are changing Bud. That you cannot deny...

BUD

Ahh, well I sure hope we don't get more of those hot sticky summers we've been seeing. I'd be sweatin' like a sinner in church.

GOLYGFA 9

Presentation Day.

Emmie comes out from her bedroom, ready for school. She is wearing pyjamas and her school shirt. She goes over to the washing machine, and she can't open the door.

EMMIE

Damo'r blydi lle 'ma!

Her mother calls to her from the bedroom

ANGELA

Ti'n iawn bach?

EMMIE

Mae'n siwmpwr ysgol i dal yn y washing machine a mae'n rhaid bod y lettric 'di torri off a fi ffili agor y drws.

Her mother comes out of the bedroom looking immaculate, hair, make up.

ANGELA

Jesd rho cwpwl o funude iddo fe, mae ar y peth timer od 'na siwr o fod.

EMMIE

Na, mae rhywbeth yn bod gyda'r supply, fi'n siwr bod 'na. Ni'n defnyddio 30 amp ar y mwya'...

ANGELA

Jest benthyg un o 'mhethe i...

EMMIE

Fel be'? 'Na i gael stŵr os nagw i'n gwisgo'r wisg ysgol a mae gyda fi'r cyflwyniad ar gyfer y wob'r 'na heddi. Pam s'o pethau'n gallu mynd yn iawn i fi am unwaith?!

ANGELA

Ma' isie i ti cŵlo lawr bach. Ma'n fine.

Suddenly notices her mother all dressed up

EMMIE

'Le ti'n mynd?

ANGELA

Wi off i Gyrddydd i weld ambiti'r job 'na. 'Shgw'l ma' 'na V-neck navy yng ngwaelod y cwpwrdd.

EMMIE

Fi angen rhywbeth llwyd.

ANGELA

Gwêd 'thon nhw "Navy is the new grey." Ma'n rhaid i fi fynd, wi'n gorfod dala'r bws.

Emmie is just about to ask her about her medication.

Angela leaves

Emmie looks at her watch.

EMMIE

Daro!

She grabs her bag and leaves. She returns for her USB which has all the information on it. She leaves. She returns again for the navy v-neck jumper.

Music

A storm is gathering the thunder is getting closer, and in the distance we see flashes of lightning.

GOLYGFA 10

We see Angela at her job interview.

ANGELA

Thank you for seeing me. Here's my CV. I know it looks like I haven't done much lately but I've been bringing up my daughter. What do you call it now - a career break.

CÂN 7- BREUDDWYD FFWL / PIE IN THE SKY

ANGELA

Am y tro cynta' dwi yn fodlon

'Na i fod yn wraig fach radlon

Cwcan bob un noson

Fyddai'm yn swil

'Rôl talu'r bils

I gyd.

Am y tro cynta' dwi am herio

Gwneud pob un dim nawr 'nhytrach na gobeithio

Fi sy'n rheoli

Nid pendroni o hyd.

'Sdim angen 'fi esbonio'r newid mawr

'chos er fy nhuedd gwyllt roedd wastad gen i'r hawl

*Ond fi sydd yn rhedeg sydd yn ffoi
A fi yw'r un dwi'n trio ei hosgoi
Dwi'n mentro ond dwi'n methu ddydd 'rôl dydd
Creda fi
'Mond breuddwyd ffwl ydy hi.*

*Am y tro cynta' dwi'n gyfoethog
Ddim wrth y dibyn, ond dwi reit yn y canol*

*Ar y blaen
'Nhrwyn ar y maen
Bob amser.
Am nawr dwi ddim am roi esboniad
Dwi jest am joio gweld fy adlewyrchiad*

(Fe fydd) Torf yn rhuo

Fi'n eu swyno, ie.

*'Sdim angen 'fi esbonio'r newid mawr
'chos er fy nhuedd gwyllt roedd wastad gen i'r hawl
Ond fi sydd yn rhedeg sydd yn ffoi*

*A fi yw'r un dwi'n trio ei hosgoi
Dwi'n mentro ond dwi'n methu ddydd 'rôl dydd
Creda fi
'Mond breuddwyd ffwl ydy hi.
'Chos fi sy' bia'r parc treilyr sur
Syniade sy'n tyfu o 'mreuddwydion lu
Yma yn y lludw, yn y baw*

Drwy wynt a glaw mae fy nghanadaeth bur

Fi sydd yn rhedeg sydd yn ffoi

A fi yw'r un dwi'n trio ei hosgoi

Dwi'n mentro ond dwi'n methu ddydd 'rôl dydd

Creda fi.

Ie fi sydd yn rhedeg sydd yn ffoi

A fi yw'r un dwi'n trio ei hosgoi

Dwi'n mentro ac yn methu ddydd 'rôl dydd

Creda fi

'Mond breuddwyd ffwl ydy hi.

GOLYGFA 11

Swansea University. In the university hall, there is a lectern on stage. Lloyd is pacing. Emmie hasn't turned up!

LLOYD

Mae fel blydi Hogwarts.

WALT

Stopa regi. Welest ti'r ddyfais dd'wetha'?

LLOYD

Y probe robotic?

WALT

Pam 'nes i gytuno i hyn?

An announcement is made for their school.

V/O

Mr Hodges i'r llwyfan os gwelwch yn dda.

WALT

God, ble ma' hi?

LLOYD

Mae ar ei ffordd, Syr.

V/O

Mr Hodges i'r llwyfan os gwelwch yn dda.

WALT

Ro'n i'n gwybod. Ti ffili'i thrystio hi. Reit de, Toto, ma'n dishgw'l yn debyg bydd rhaid i ti 'neud y cyflwyniad ar dy ben d'unan.

LLOYD

Beth? Does dim o'r notes gyda fi!

WALT

O fla'n pawb a'i frawd. If I'm going down, ti'n dod 'da fi.

LLOYD

Mae hwnna'n kind of inappropriate, Syr.

Lloyd follows Walt to the lectern, he taps the microphone. He is very nervous. He composes himself.

WALT

Bore da. Fy enw i yw Mr Hodges, ac mae'n fraint gen i gyflwyno ein disgybl blwyddyn naw, Lloyd Evans.

Silence. Walt leaves Lloyd on his own. He begins to speak.

LLOYD

Helo.

Feedback from the mic

LLOYD (CONT'D)

O sori...ein cyflwyniad ni yw... Heddiw dwi'n cyflwyno i chi, Beiriant Tyrfedd
Artiffisial.

Sniggers from the audience. Emmie rushes...

LLOYD (CONT'D)

Thank God! Hoffwn i gyflwyno Miss Emmie Price, ein arbenigydd. Hi fydd yn
cyflwyno gweddill y gwaith.

Emmie makes her way to the lectern.

She is nervous, almost paralysed by what she has to present. We hear her breathing
into the mic. We can almost hear her heart pumping. She looks to Walt who has his
head in his hands. Lloyd looks to her, and gives his "team" gesture to her.

She places the USB stick into the laptop. On the white board we see a series of
animations and diagrams, which coincides with her presentation.

EMMIE

Bwriad ein dyfais ni yw creu egni adnewyddadwy drwy ddefnyddio pŵer corwynt
sydd dan reolaeth.

Mae fortects tebyg i gorwynt yn cael ei gynhyrchu drwy adael aer cynnes i mewn i
arena gron. Mae'r aer yn troelli wrth iddo godi, sy'n ffurfio fortects.

Mae'r gwaith darfudo'n cael ei ddala gan dyrbinau sydd wedi'u lleoli ar lefel y ddaear
y tu allan i'r arena. Gallai'r orsaf bŵer hon fod â diamedr yn mesur tua dau gan metr
a gallai gynhyrchu dau gan Megawatt o bŵer trydanol ar gost isel – tua tair ceiniog i
bob awr-kilowatt.

Mewn cymhariaeth mae pŵer tyrbeini eraill yn costio deg gwaith mwy. Mae ffermydd gwynt ar y tir yn costio miliwn o bunnoedd i bob megawatt.

Gallai'r ffynhonnell wres gychwynnol ddod o egni solar, gwres gwastraff neu ddŵr cynnes.

Un ffynhonnell bosib byddai dŵr môr sy'n cynhesu a chynhesu. Gallai ardaloedd trofannol gydag adnoddau geothermal da fel y Philippines, Bangladesh ac Indonesia fod yn leoliadau addas ar gyfer ein dyfais, yn enwedig o ystyried bod yr ardaloedd hyn wedi'u heffeithio'n ddirfawr gan stormydd eithafol.

Bydd y gweithredoedd ry'n ni'n eu dewis fel rhywogaeth dros y ddeng mlynedd nesaf yn penderfynu os wnawn ni oroesi neu beidio. Felly, fel person ifanc, fy mwriad yw achub ein planed a phawb sy'n byw arni.

Mae'r Peiriant Tyrbedd Artiffisial yn lleihau cynhesu byd eang drwy leihau'r maint o danwydd sydd ei angen i leddfu anghenion egni. A dwi'n gobeithio y bydd yn cyfrannu at ddatrys argyfwng hinsawdd ein planed.

A rapturous applause

EMMIE (CONT'D)

Diolch am eich amser.

Emmie is relieved. She looks to Lloyd and he goes to cwtsh her, but it's awkward and it ends up just being a pat on the back.

LLOYD

Diolch am achub fy nghroen i eto!

EMMIE

Dim probs. Ni'n dîm, ngy'n ni?! Ble mae Walt?

LLOYD

Siarad â'r beirniaid. Mae'n rhaid bod hwnna'n good sign. 'Naethon nhw alw fe draw straightaway.

EMMIE

Ti'n meddwl 'neith Walt adael fi nôl ar y cwrs?

Walt comes over.

LLOYD

Beth wnaethon nhw ddweud, Syr?

WALT

Gwaith arbennig o dda.

LLOYD

So, ydyn ni wedi ennill then?

WALT

Chi 'di cael eich gwahardd.

LLOYD

Beth?

WALT

Disqualified. Mae'n rhaid i'r ddyfais fod yn wreiddiol er mwyn cael ei ystyried yn y gystadleuaeth.

EMMIE

Mae yn wreiddiol, Syr.

Pause as WALT presents a piece of paper, and reads

WALT

Louis Michaud.

LLOYD

Pwy yw e?

WALT

Louis Michaud. Gwyddonydd sy'n byw yn Quebec.

LLOYD

Y state Ffrangeg yn Dwyrain Canada?

WALT

Ca' dy ben!

Emmie take the paper from him.

EMMIE (reading)

He invented the Atmospheric Vortex Engine...

LLOYD

...Teitl gwell...

EMMIE

...in 2005.

LLOYD

Pam ni heb glywed amdano fe?

WALT

Achos wnaethoch chi ddim eich gwaith ymchwil.

LLOYD

O't ti'n gwybod, Emmie?

EMMIE

Na, wrth gwrs nago'n i.

LLOYD

Mae'n rhaid taw just cyd-ddigwyddiad yw hyn.

EMMIE

So, beth nesa'?

WALT

Wel, 'falle gallwn ni ddiolch i'r duwie nagyw'r boi 'ma ishe'n sue-o ni! Ti 'di codi cywilydd arna'i, ni, yr ysgol gyfan. Enghraifft arall ohonot ti'n rhedeg cyn dysgu cerdded. Wi mo'yn i ti ddod â dy lyfre a dy liniadur nôl ata i. Gelli di anghofio ambiti ffiseg Emmie Price.

Walt exits.

LLOYD

Roedd e'n syniad amazing.

EMMIE

Honna oedd fy unig obaith i o gael aros ar y cwrs a nawr 'wi 'di 'neud cawlach o bopeth.

LLOYD

Na ti ddim, gest ti yr un syniad â gwyddonydd super brainy.

EMMIE

Ond doedd e ddim yn wreiddiol.

LLOYD

Wnest ti a fe, ar dy ben dy hun, creu'r syniad boncyrs 'ma i helpu pobl gael 'letric o tornado!

EMMIE

Fi 'di methu. Ro'n i isie gwella'n hunan. Dianc. Be' sy' mor ddrwg ambiti 'ny? Pam na
alla i ga'l y freuddwyd 'ny?

She leaves him on his own.

LLOYD

Ta-ra.

Lights Fade as he is silhouetted.

Reprise of Lloyd's Song

During the Song we see Lloyd on his mobile.

LLOYD (CONT' D)

Bonjour... pardon...bonsoir... Je m'appelle Lloyd. J'habite à Penywaun. What it is,
is...

GOLYGFA 13

Montana Heights. Emmie enters the mobile home. Her mother has cooked food for
her, just like the last time, but this time it's real.

ANGELA

Jyst mewn pryd, bydd yn ofalus, ma'r platie'n dwym.

Angela places the food on the table. Turns to put the kettle on.

Emmie freezes as she waits for the image to disappear. She looks around as if any
minute the electric will cut out

Emmie sits.

ANGELA (CONT' D)

Wel, 'stedda! Paid jyst syllu arno fe. S'o fe'n mynd i fod yn dwym am sbel. Ti'n iawn,
bach?

EMMIE

Ydw.

ANGELA

Drinc?

Emmie looks up. Angela has what looks like a wine bottle.

ANGELA (CONT' D)

Elderflower.

Emmie smiles and relaxes

EMMIE

Diolch.

Her mother buzzes around her.

ANGELA

Sut a'th y cyflwyniad?

EMMIE

Sa' i mo'yn siarad ambiti fe.

Pause

ANGELA

Ti isie fi fynd lawr i'r ysgol i ga'l gair?

EMMIE

Na, mae'n fine. Diolch am gwcan heno.

ANGELA

Ma'n ddathliad o ryw fath.

EMMIE

Dathliad?

ANGELA

Y cyfweliad.

EMMIE

O Mam, 'wi'n sori. Sut aeth hi?

ANGELA

Wel, 'wedon nhw ddim byd, ond 'nes i 'ngore. Wedon nhw 'sen nhw'n ffono 'fory, so gawn ni weld.

EMMIE

Fi'n browd ohonot ti, Mam.

ANGELA

Diolch bach. Nawr dere, 'wi 'di treulio'r rhan fwya' o 'n'wrnod i'n 'neud hwn.

EMMIE

S'o ti wedi cwcan ers sbel.

ANGELA

'Wi'n gw'bod. A 'wi'n gweld ishe fe, ma' fe'n therapiwtic, bron. Wi jest ddim yn 'neud digon ohono fe dyddie 'ma. Ond gwces i lwythi heddi – chilli, bolognese, lasagne, digon i bara cwpwl o wythnose o leia'. Ma' Lakeland yn cau yn dre, so brynes i'r pethe bach foil takeaway 'na, ti'n gw'bod, i ga'l rhewi'r bwyd. Ges i nhw'n rhad 'fyd.

Fel bo' ti ddim yn gorfod cwcan ne' fyw ar Doritos.

EMMIE

Mae hwnna'n grêt, Mam.

ANGELA

Weles i Karen.

EMMIE

Oedd hi'n ok?

ANGELA

Ydi, ma'n iawn.

EMMIE

'Nest ti fenthyg arian wrthi, Mam?

ANGELA

'Shgwyl bach, 'na'i ffordd hi o d'imlo bo' hi'n cyfrannu. Ma' hi'n loaded wedi'r cwbl.

EMMIE

S'o ni angen hi, Mam. A dylet ti ddim fod yn prynu pethau ni ffili ffordd'o. Ni 'di siarad ambiti hyn, nagy'n ni?

MAM

Do, ond beth ambiti hyn? Ma'n rhaid i ni allu fforddo hwn?

Angela presents the American college prospectus. Emmie takes it

EMMIE

Breuddwyd oedd hi...

ANGELA

Ma'n bwysig ca'l breuddwyd, cariad...

EMMIE

S'o fe'n real though, ydi fe? Dyma be' sy'n real, Mam. Bod fan 'yn, 'da ti. Dyma lle 'wi fod.

ANGELA

Wrth gwrs 'ny. Ni'n dîm.

EMMIE

Ydyn. Ni'n dîm.

SONG - Needing Me

ANGELA & EMMIE

Aros wnawn, nes daw'r glaw

Heb yngan gair i'n gilydd

Waeth be' ddaw.

Stormydd lu, sy'n bygwth ti a fi

Ni'n dala'n gryf

Mewn tawelwch pur.

Emmie cwtshes her mam and goes inside.

ANGELA

Ond os wnai gymryd siawns a mynd

Darganfod pwy ydwi fy ffrind

Tase aros ddim yn rhaid

Gohirio mywyd yn ddi-baid

Projection covers the stage with abstract images representing her state of mind. She exits.

Blackout

GOLYGFA 14

Next day, an empty class. Lloyd waits patiently.

Emmie enters

LLOYD

Croeso i Clwb Gwyddoniaeth!

EMMIE

Ydi hi wastad mor wag â hyn?

LLOYD

Ym, na, nes i ganslo heddi'...

Pause

EMMIE

Bydd y gloch yn canu mewn munud, so beth ti mo'yn, Lloyd?

Lloyd opens up his laptop, punches the keys and with a tone ringing out an image appears on the white board.

EMMIE (CONT'D)

Pwy yw e?

LLOYD (whispering)

Louis Michaud

EMMIE

Oh my God, ydi e'n mynd i sue-o fi?

LLOYD

Ssh, gwrandá...

LOUIS MICHAUD

Great minds think alike, or fools never differ. Whichever one you think suits us best. Anyhow, I love that our thoughts are in synergy. I like synergy. As you can see I am getting on, no longer a spring chicken and what we need here at our laboratories is new young blood to continue and share the work. We have been looking at inviting an intern to join the program, and I think we have found one. Therefore we would like to offer you an internship here in Canada this summer. I know it's not Indiana, but we have tornados here too and Canada is far more welcoming. We can pay a small allowance for living but you will need to find a way to get out here.

EMMIE

Sut fi'n mynd i 'neud 'ny?

LLOYD

Ssh...

LOUIS MICHAUD

Emmie Price this offer goes to you and you alone. This is a once in a lifetime opportunity. Let me know so we can start organising things here for you. My company will be in touch. Merci. Au Revoir.

The image closes down. And the image on the white board is Emmie and Lloyd staring up at the board.

Emmie goes over to Lloyd.

EMMIE

Wnest ti 'na i fi?

LLOYD

Ro't ti angen rhywun i helpu ti.

EMMIE

Diolch, Lloyd.

LLOYD

Ti just angen rhywun loaded i fenthyg yr arian i ti a ti'n gallu mynd.

EMMIE (to herself)

Loaded.

Emmie runs out.

LLOYD (to himself)

Ie, mae'n ok, dim problem, anytime... no worries bod fi wedi defnyddio credit fi gyd i
ffonio'r fflipin boi...

Emmie comes back in

EMMIE

Anghofies i'n fag.

LLOYD

Beth?

EMMIE

Jôc.

She kisses him on the cheek.

Walt enters the classroom

EMMIE

Bydd dim angen hwn arna' i, Syr.

WALT

Pam 'ny?

EMMIE

'Wi off i achub y blaned.

Emmie exits

WALT

Paid rhedeg cyn cerdded!

LLOYD

Mae'r Monsieur Michaud yna wedi invito hi mas i Canada i gweithio ar invention hi.

WALT

A sut mae'n bwriadu cyrr'edd 'na?

LLOYD

Sai'n siwr.

WALT

Creda fi, s'o fe'n beth da codi gobeithion pobl, Lloyd. 'Wi 'di bod yn 'neud 'na drwy'n
oes a shgwla le y'f fi.

LLOYD

'Falle bod invention hi yn mynd i achub ni gyd.

WALT

Paid bod mor ridicylys.

The rest of the class start coming in.

LLOYD

Fi just yn dweud, Syr. Breuddwyd hi oedd e...

WALT

Wel, 'y'n ni gyd â breuddwyd, Lloyd, a wedyn ti'n deffro, dishgw'l o dy gwmpas di a sylweddoli bo' ti dal yn yr union fan ddechreuest ti. Nawr ishte lawr. Desgie clir plîs.

He starts handing out pieces of paper.

WALT (CONT'D)

Y cwblw byddwch chi'u hangen yw pen neu bensil.

CHRIS

What's this, Sir?

WALT

Paid cyffwrdd ynddo fe!

GRIFF

Ydi e'n test, Sir?

WALT

Arholiad.

THOMAS

Yess!

GRIFF

Ni?

CHRIS

Neu ti?

WALT

Wel nawr bod Greta Iceberg wedi penderfynu achub y blaned, ma' 'da fi bethe
pwysicach i boeni ambiti nhw, fel 'yn jobyn i...

LLOYD

Ond, Syr, ni heb adolygu –

WALT

'Ond Syr! Hisht! Ma' 30 munud gyda chi i orffen yr arholiad 'ma. Dechreuwch.

He looks at his watch and relishes the power.

Cân 8 – Cân Walt / Walt's Song

WALT (CONT'D)

*Pawb i weld â llwybr ac yn gwybod sut i'w droedio
Fel petai nhw byth yn torri chwys fel 'tai nhw ddim yn gwybod pa mor
boenus yw hi aros pan ti'n torri bol i grwydro a fod codi pen yn anodd
tra ti dal yn syrthio*

*Pawb i weld â rhywun sydd â breichiau mawr i'w dal
Tra bo' pob un syniad ges i 'rioed yn 'sgrifen ar y wal
Alla'i ond â mynd yn ôl, ches i 'rioed weld map y daith
Does dim pwrpas dyna ffaith*

A dwi'n dal i syrthio

*Pob un yn y byd ond fi
Wedi llwyddo, wedi dal eu tir.*

*Pob un yn y byd, pob un yn y byd
Ond fi
Pob un yn y byd ond fi.*

Roedd gen i freuddwydion lu

Cydymffurfio oedd yr oll wnes i

Pob un yn y byd, pob un yn y byd yn rhydd

Pob un yn y byd ond fi.

*Mae'n rhwyddach troi dy gefn cyn bod dy frwydr di ar ben
Weithiau'n haws i ildio cyn bo' rhywun yn dy wawdio*

Paid difarru, paid anghofio nad dy faich di sydd i'w chario

Paid â meiddio cael dy frifo

Mae'n well syrthio

*Pob un yn y byd ond fi
Wedi llwyddo, wedi dal eu tir.*

*Pob un yn y byd, pob un yn y byd
Ond fi
Pob un yn y byd ond fi*

Heb gyflawni dim mewn pryd

Cydymffurfio oedd fy llwybr i

Pob un yn y byd, pob un yn y byd yn rhydd,

Pob un yn y byd ond fi.

*Pam bod pethau'n hawdd a phethau'n sbri i
Bob un yn y byd ond fi*

Pob un yn y byd, pob un yn y byd, ond fi

Pob un yn y byd ond fi.

Pawb ond fi'n cael dewis pryd, cawn nhw fod yn nhw eu hun

Pob un yn y byd, pob un yn y byd, ond fi

Pob un yn y byd ond fi.

The school buzzer goes. The boys hand in their paper

GOLYGFA 15

Emmie goes to the mobile home

KAREN

Emmie...

EMMIE

Karen, fi wedi bod yn edrych amdanat ti 'mhobman. Fi angen benthyg arian.

KAREN

Emmie, gwranda. Ma' Mam –

EMMIE

Le ma' hi?

KAREN

Ma' nhw 'di admitto hi.

EMMIE

Pwy?

KAREN

Da'th ambulance. Mynd â hi i'r ysbyty.

EMMIE

Be' ddigwyddodd?

KAREN

Da'th Mam i'r siop yn rantan a rave-an, dweud bod hi angen arian. 'O'n i'n 'neud

'winedd Faye. 'O'dd hi'n embarrassin'. Dries i cŵlo hi lawr, ond o'dd hi fel lunatic.
Gweud rywbeth ambiti methu cyfweliad.

EMMIE

Ond wedodd hi...

KAREN

Ma'n gelwyddgi Emmie, 'na pwy yw hi. Dylet ti, o bawb, wybod 'ny. Rhedodd hi mas a wedyn ges i alwad gan y mochyn, Church 'na, dweud bod hi 'di dechre mynd yn mental achos bod y freezer ddim yn gw'itho ne' rywbeth. Pan gyrhaeddes i ro'dd gwaed a glass yn bobman, 'o'dd hi 'di torri ei hunan. 'Falle bo' ti'n gyfarwydd â'r sefyllfaoedd 'ma, ond 'wi ddim.

EMMIE

Wel, falle am unweth dylet ti...

KAREN

'Shgw! Emmie, ti ffili cadw beio fi am ad'el chi. Tynnodd Dad fi mas o'r sefyllfa er mwyn achub fi. Sori 'na'th e ddim mynd â ti 'fyd, ond nage 'mai i yw e. Stopa chwilo am rywun i feio drwy'r amser.

EMMIE

Le ma' hi?

KAREN

Yr ysbyty.

Emmie runs out

KAREN

Ti isie lifft?

GOLYGFA 17

In the hospital. Karen sits on a chair in the corridor. A hospital consultant comes to talk to her.

CONSULTANT

Excuse me. Are you Ms. Price's daughter?

Karen stands

KAREN

Yes, I am.

CONSULTANT

It looks like she hasn't been taking her medication.

KAREN

For how long?

CONSULTANT

A week, perhaps longer. She's very ill. Do you have the medication with you? .

KAREN

No. I don't care for her.

Consultant checks his notes.

Emmie steps forward.

EMMIE

I care for her. Here's the meds she's been prescribed.

She hands over the tablets.

EMMIE

Can I see her?

CONSULTANT

Yes. Why don't you go in while I speak with your sister?

EMMIE

Hanner chwaer...

Emmie goes to see her mother.

CONSULTANT

How old is your sister?

KAREN

Fourteen.

CONSULTANT

And she's been caring for her for six years?

KAREN

Yes, I know.

CONSULTANT

Do you live close by?

KAREN

Next valley over.

CONSULTANT

Hasve you ever considered helping your sister?

Emmie comes out of seeing her mother.

EMMIE

Mae'n cysgu'n sownd.

Consultant doesn't understand

EMMIE

Sorry. She's fast asleep.

CONSULTANT

Ah yes. We've sedated her for now.

EMMIE

Can I see her tomorrow?

CONSULTANT

Of course.

Pause

CONSULTANT (CONT'D)

As her primary carer Emmie, I have to let you know that we're considering sectioning your mother under the Mental Health Act.

EMMIE

But I can look after her! She'll be fine. I'll give up school. I'll do anything.

CONSULTANT

Emmie, she needs the correct care.

EMMIE

Please don't take my mam away from me.

KAREN

Dyma'r dewis gore, i'r ddwy ohonoch chi.

EMMIE

Sut wyt ti'n gwybod beth sydd orau iddi? Fi'n 'nabod hi'n well nag unrhyw un.

Turns to the consultant

EMMIE (CONT'D)

Please don't do this.

CONSULTANT

Emmie. Your mother needs this and we're afraid for her. We have to make a thorough assessment.

Emmie is fighting the emotion back.

EMMIE

I'll try harder. Please...

CONSULTANT

Emmie, you don't need to try anymore. You need help just as much as she does.

Karen leaves.

Emmie turns her away, not wanting to show the doctor her feelings.

CONSULTANT (CONT'D)

Let's talk again tomorrow. How are you getting home?

EMMIE

Not sure.

CONSULTANT

Here. For the bus.

He hands her a five pound note

EMMIE

Diolch.

Emmie breaks down from the kindness shown to her, and cwtshes the doctor as if she never wants to let go.

GOLYGFA 18

Emmie goes back home. There is a light on in the mobile home. Mr Church is clearing up.

MR CHURCH

Meddwl byddwn i'n helpu clirio'r mess...

EMMIE

'Letric nôl 'mlaen te.

MR CHURCH

Ydi, nes i switcho fe draw...

EMMIE

Draw i beth?

Mr Church realises he has dropped himself in it.

EMMIE (CONT'D)

Draw i beth? S'o ni'n ca'l y pŵer ni'n talu ar ei gyfer e, y'n ni?

MR CHURCH

Beth?

EMMIE

Yr ampage! Ni'n talu am dri-deg amp.

MR CHURCH

Sai'n deall beth ti'n meddwl.

EMMIE

Ti'n roi llai o bŵer i ni, ond cymryd yr arian am fwy – y cachwr.

She grabs him

MR CHURCH

Plîs paid â dweud wrth Dad.

EMMIE

Ti'n pathetic.

MR CHURCH

Wyt ti'n mynd i ddweud wrth Dad?

EMMIE

Cer o 'ma.

He leaves.

Emmie looks around the mobile home. The silence unnerves her.

Karen enters with a dish of lasagne

KAREN

'Nes i hwn i ti - lasagne.

Emmie starts to half cry and laugh

KAREN (CONT'D)

S'o ti'n lico lasagne?

EMMIE

Dwli arno fe. Diolch.

Silence

KAREN

Pan o'dd Mam yn iach, o'dd hi'n cwcan e i ni.

EMMIE

Oedd. Mae'i wrth 'i bodd yn cwcan.

KAREN

A pobi...

EMMIE

Ti'n cofio ar b'nawnie Sul ro'n ni'n pobi cacenne 'da'n gilydd?

KAREN

Ydw. Ro'n i wrth 'y modd. Ro't ti mor ciwt yn dy ffedog fach.

EMMIE

Ti brynodd hi i fi, ar fy mhen-blwydd.

As they sing we have videos of a family holiday projected on screen

KAREN

Rhywle dros yr enfys mae 'na ferch fach gry'

'Chydig hapusach, mae'n ychydig llai ond jesd fel fi

Mae'n troelli yn ei hunfan a gwneud sylwadau ffraeth

Yn sylwi dim, bod bod yn hi yn gwneud pob dim yn waeth.

EMMIE

Pam 'nest ti ad'el?

This comes as a shock to Emmie.

KAREN

O'dd rhaid i fi. I achub 'yn hunan.

EMMIE

Rhywle dros yr enfys mae 'na ferch llawn swyn

Sy'n gofyn pam a sut a phryd, mae'n llawn cwestiynau dwys

'Sdim ofn ganddi weld y byd, wynebu pob un her

Gobeithio dysgu gennyf ti, heb wneud bob dim yn ofer.

EMMIE A KAREN

Teimlo fel ddoe,

Oes bell yn ôl

Roedd 'na gariad yn gorlifo

a neb yn teimlo'n ffôl.

'Se'r cloc yn troi,

Nôl i'r gorffennol

Fe dd'wedwn wrthi'i joio 'chos ro'n nhw'n ddyddie rhyfeddol.

KAREN

Roedd Mam yn iawn pryd 'ny. Yn hapus. Newid'odd pethe ar ôl yr haf 'na.

EMMIE A'R CWMNI

Rhywle dros yr enfys mae 'na ferch sy'n stond

Wedi'i harfogi at y frwydr, mae hi'n gry', yn barod,

Mae'n gweld gwylltineb, braw a llid bob nos yn dod i'w chwrdd

Gobeithio y gall hud y gwynt ei chludo'n bell i ffwrdd.

KAREN AC EMMIE

Teimlo fel ddoe,

Oes bell yn ôl

Roedd 'na gariad yn gorlifo

a neb yn teimlo'n ffôl.

'Se'r cloc yn troi,

Nôl i'r gorffennol

Fe dd'wedwn wrthi'i joio 'chos ro'n nhw'n ddyddie rhyfeddol.

Ac mae'n cuddio yma'n rhywle, dwi'n ei theimlo

Y ferch fach sydd yn bloeddio eisiau ffoi

A tasen i'n cael cyfle 'sen i'n trio

Dal ei llaw a'i gwarchod rhag y byd a rhag y boen.

KAREN

Ma' Mam wastad wedi bod yn browd ohonot ti. Ma' hi mo'yn i ti lwyddo. Bydd hi yn yr ysbyty dros y misoedd nesa' a phan ddeith hi mas, 'wi mo'yn iddi ddod i aros gyda fi.

S'o fe'n mynd i fod yn hawdd. 'Wi'n gwybod 'ny, ond 'wi angen 'neud hyn. I ti.

EMMIE

Pam?

KAREN

Achos, s'o ni gyd yn cael cyfleoedd fel hyn, Emmie... Ma'n rhaid i ti fachu dy gyfle.

Paid becoo ambiti Mam. Wna i edrych ar ei hôl hi.

GOLYGFA 19

In the mobile home, Angela and Karen are busying themselves putting food out.
Lloyd is trying to set up an image on the whiteboard from school.

ANGELA

Gest ti ddim hassle gan yr ysgol do fe, Lloyd?

LLOYD

Na, roedd e'n fine, ond roedd pobl yn edrych arno fi fel weirdo yn cerdded lawr Park
Road gyda fe.

ANGELA

'Wi ffili aros i weld 'i wyneb bach hi...

Karen places the cup cakes out on the table.

LLOYD

Ife ti wnaeth rhain?

KAREN

Ie. Recipe Mam.

LLOYD

Sut 'nest ti 'neud yr icing gwahanol lliwiau?

KAREN

Just hair dye o'r salon.

LLOYD

Really?

KAREN

Nage, food colouring yw e, Lloyd.

LLOYD

Amazing!

Knock on the door. Walt arrives.

WALT

Odw i 'di'i cholli hi?

ANGELA

Naddo, ond 'sdim sbel i fynd. Ti mo'yn dishgled?

WALT

Odw, plîs.

Angela goes over to put the kettle on.

Everyone freezes. Waiting for it to trip out. Hold their breath. It's fine.

ANGELA

Dyw e byth yn tripo nawr. Lla'th?

WALT

Ie plîs a dou siwgr.

ANGELA

Ni mor ddiolchgar am be 'nest ti dros Emmie...

WALT

Ma'n iawn. Peth lleia' allen i 'neud – rhan o'n redundancy. Gwaries i'r gweddill ar camper van. 'Wi'n mynd i fforio'r gorllewin gwyllt...

ANGELA

America?

WALT

Nage. Milford Haven.

ANGELA

Wir, ni mor ddiolchgar...

He turns to Lloyd.

WALT

Shwd ma'r ysgol, Lloyd?

LLOYD

lawn, Syr. 'Nes i'n dda yn fy mocks. Ges i A yn Ffiseg.

WALT

Mae'n rhaid bo' safonne'n cw'mpo.

LLOYD

Sut mae retirement, Syr?

WALT

Gymres i redundancy, Lloyd.

LLOYD

Ie, ond oeddet ti ddim yn bell off though, oeddet ti?

WALT

Wel...

Angela passes the tea to him.

The image of a news reporter comes on the big screen. They all settle down.

KAREN

Ssh...'Co nhw...

BUD V/O

Now we go over to Ched who is over the border in the southern Ontario Province where we are expecting some tornadoes making landfall any time soon. How are things there in Canada Ched?

CHED

Or at the moment there's a breeze picking up but we are about 20 miles from what we would call the second most likely place on the planet to experience this destructive force of nature. Here, I have a young student called Emmie Price -

They cheer!

CHED (CONT'D)

..who has travelled all the way over from Wales, England...

ANGELA

Ma'n dishgw'l mor grown up!

KAREN

Ma'i gwallt hi'n wahanol.

CHED

...to get to study storms for research. Hi Emmie.

Emmie looks self conscious on the screen.

EMMIE

Hi.

CHED

So are you going to chase this storm coming in?

EMMIE

We are going to try and get really close, yes. So that we can gather data for research.

CHED

How close will you get?

EMMIE

Not sure. What every storm chaser dreams of is to get into the eye of the storm...

LLOYD

D'wedodd hi hwnna wrtha i...

CHED

Is there anything you want to say to the folks back home?...

Emmie looks straight down the lens

EMMIE

Just... fi'n caru chi and I'll be home soon.

CHED

It's made landfall. Come on everyone get into the cars. Come on Emmie! Lets go!

Come on Emmie, quick!

She blows a kiss!

Reprise of Alive

EMMIE

*Corwynt creulon ddaeth i'm llethu i
'Nhroi i ben i waered, tu fewn mas 'da'i hyrddiau cryf
Ac, o, mae'r gwynt 'di newid siâp fy myd.*

Cael fy llyncu gan don llanw mawr

Cael fy llusgo 'dano, 'nhroi a throi, fy nrysu nawr

Ac o, mae'r lli 'di newid siâp fy myd.

CAST

Ti methu ffeindio ateb

Os yw'r cwestiwn heb ei ofyn

Os ti'n chwilio am ddoethineb

Paid cyffroi, dwi'n ferch gyffredin

Pan fydd cwmwl fyny fry'

Glaw yn llifo drosot ti a fi

Pan fydd storm yn bygwth trasiedi

Creda fi

Dwi'n 'nabod siâp fy myd.

EMMIE

O dwi'n gweld y gwynt, dwi'n gweld y tir

S'o ni'n dysgu dim o'n difrod ni, na'n gweld y gwir

A fe wn i bod angen newid pur.

Ti methu ffeindio ateb

Os yw'r cwestiwn heb ei ofyn

Os ti'n chwilio am ddoethineb

Paid cyffroi, dwi'n ferch gyffredin

Pan fydd cwmwl fyny fry'

Glaw yn llifo drosot ti a fi

Pan fydd storm yn bygwth trasiedi

Creda fi

Dwi'n 'nabod siâp fy myd.

CAST

Ti methu ffeindio ateb

Os yw'r cwestiwn heb ei ofyn

Os ti'n chwilio am ddoethineb

Paid cyffroi, dwi'n ferch gyffredin

Pan fydd cwmwl fyny fry'

Glaw yn llifo drosot ti a fi

Pan fydd storm yn bygwth trasiedi

Creda fi

Dwi'n 'nabod siâp fy myd.

As a projection of a huge swirling tornado travels across the backdrop engulfing the stage.

Blacowt.

Y DIWEDD.